**<u>Nodyn Esboniadol a Chyfarwyddyd o dan Adran 57 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021</u>**

**<u>Nodyn Esboniadol</u>**

*Cefndir y Cyfarwyddyd:*

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cwricwlwm ac yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ar gyfer disgyblion a phlant yng Nghymru. Mae adran 56 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer asesu mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol. Mae i "cwricwlwm perthnasol" yr ystyr a roddir iddo yn adran 56(5) o'r Ddeddf. Gwnaeth Gweinidogion Cymru Reoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022 a ddaw i rym ar 1 Medi 2022.

Yn ogystal, mae adran 57 o'r Ddeddf yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo person perthnasol neu bersonau perthnasol (fel y'i nodir yn Adran 56 o'r Ddeddf) i gymryd camau penodedig gyda golwg ar hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd yng nghyd-destun cwricwlwm perthnasol (fel y'i diffinnir yn Adran 56 o'r Ddeddf)[1]. Nodir testun y cyfarwyddyd hwnnw yn yr adran ganlynol. Drafftiwyd y ddarpariaeth honno i fod yn ddigon eang i gynnwys cyfarwyddyd mewn perthynas ag ymarferwyr sy'n datblygu ac yn cynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.

Bydd y cwricwlwm newydd yn fandadol ar gyfer y grwpiau blwyddyn mewn ysgolion a lleoliadau eraill fel a ganlyn—

(a) ar 1 Medi 2022 ar gyfer—

(i) plant sy'n cael addysg feithrin,

(ii) disgyblion yn eu blwyddyn derbyn,

(iii) disgyblion ym mlynyddoedd 1 i 6,

(b) ar 1 Medi 2022 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 7 mewn ysgolion a lleoliadau eraill pan fo cwricwlwm wedi ei fabwysiadu neu wedi ei ddarparu fel arall yn unol â'r Ddeddf,

(c) ar 1 Medi 2023 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 7 ac ym mlwyddyn 8,

(e) ar 1 Medi 2024 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 9,

(f) ar 1 Medi 2025 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 10, ac

(g) ar 1 Medi 2026 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11.

[1] Dirymwyd y trefniadau cymedroli yng Ngorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015 gan Reoliadau Addysg (Dirymu Trefniadau Asesu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022.

## Cyfarwyddyd

Cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru yw hwn sy’n unol ag adran 57 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu 2021 ('y Ddeddf’).

Yn y cyfarwyddyd hwn:

ystyr “ar draws y cwricwlwm perthnasol” (“*across the relevant curriculum*”) yw pob agwedd ar y cwricwlwm fel y’i disgrifir yn adran 56(5) o’r Ddeddf;

ystyr “deialog broffesiynol” (“*professional dialogue*”) yw trafodaethau rhwng ymarferwyr sy'n caniatáu iddynt rannu ac ystyried eu profiadau er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Mae’r sawl sy'n cymryd rhan yn y trafodaethau yn cyfrannu’n gyfartal;

ystyr “dysgwr sydd â chofrestriad deuol” (“*dual registered learner*”) yw dysgwr sydd wedi’i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad;

ystyr “grŵp clwstwr ysgolion” (“*school cluster group*”) yw grŵp o ysgolion y mae dysgwyr yn trosglwyddo rhyngddynt yn barhaus. Gall y grŵp gynnwys ysgol uwchradd ac ysgolion cynradd sy'n bwydo’r ysgol uwchradd[2]. Fodd bynnag, bydd rhai ysgolion yn cysylltu'n wirfoddol â mwy nag un clwstwr neu’n perthyn i fwy nag un clwstwr, yn dibynnu ar y trefniadau pontio y maent yn eu rhoi ar waith ar gyfer eu dysgwyr[3]. Gall ysgol gynradd hefyd berthyn i grŵp clwstwr ysgolion gydag un neu fwy o ysgolion meithrin y mae dysgwyr yn pontio i'r ysgol gynradd ohonynt;

ystyr “lleoliad” (“*setting*”) yw:

a) ysgol a gynhelir,
b) ysgol feithrin a gynhelir,
c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir,
d) uned cyfeirio disgyblion, ac
e) person sy’n trefnu neu’n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr “parhaus” (“*on-going”*) yw parhad cyson (*continuous*). Rhaid i’r holl ofynion sy’n ymwneud â deialog broffesiynol barhaus yn y cyfarwyddyd hwn barhau yn gyson. Fodd bynnag, mater i'r personau perthnasol yw nodi pa mor aml y byddai’n briodol cynnig cyfleoedd i gynnal deialog broffesiynol mewn perthynas â phob gofyniad perthnasol;

ystyr “person perthnasol” (“*relevant person*”) yw —

[2] I gael arweiniad ar y diffiniad o ysgol gynradd sy'n bwydo gweler y Gofyniad i Lunio Cynlluniau Pontio a Chanllawiau 2022 (WG22-21) a gyhoeddwyd o dan adran 198 o Ddeddf Addysg 2002.

[3] Gweler y Gofyniad am Lunio Cynlluniau Pontio ac Arweiniad 2022 ar gyfer y gofynion a osodir ar benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion i baratoi cynlluniau pontio i gefnogi dysgwyr sy'n pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Cyhoeddir canllawiau ategol cyn hir.

(a) mewn perthynas ag ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol honno;

(b) mewn perthynas ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, darparwr yr addysg honno;

(c) mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion, yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb, y pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr uned cyfeirio disgyblion honno;

(d) mewn perthynas ag addysg ac eithrio yn yr ysgol nad yw mewn uned cyfeirio disgyblion, yr awdurdod lleol sy'n trefnu neu'n darparu'r addysg o dan adran 19A o Ddeddf 1996 (p.56).

ystyr "trefniadau" ("*arrangements*") yw'r paratoadau ymarferol, gweithredol a strategol sydd eu hangen i hwyluso deialog broffesiynol;

ystyr "ymarferydd" ("*practitioner*") yw person sy'n darparu addysgu a dysgu mewn cysylltiad â'r cwricwlwm perthnasol.

O dan adran 71 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i gynorthwyo'r personau perthnasol i fodloni'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd hwn. Mae'r canllawiau i'w gweld yn *Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu*, a dylai'r personau perthnasol roi sylw ddyledus iddynt.

## <u>Datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd *mewn* ysgolion neu leoliadau eraill</u>

### Galluogi deialog broffesiynol mewn ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir, meithrinfeydd a gyllidir ond nas cynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

Caiff y personau perthnasol eu cyfarwyddo i wneud trefniadau i gefnogi deialog broffesiynol barhaus rhwng ymarferwyr yn eu hysgol/lleoliad, er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ar draws y cwricwlwm perthnasol.

### Addysg ac eithrio yn yr Ysgol nad yw mewn Uned Cyfeirio Disgyblion

O ran addysg ac eithrio yn yr ysgol nad yw mewn uned cyfeirio disgyblion, caiff yr awdurdod lleol ei gyfarwyddo i wneud trefniadau, er mwyn:

- cefnogi'r personau a gyflogir, neu a gymerir ymlaen ganddo fel arall, i ddarparu cwricwlwm i ddysgwyr mewn addysg ac eithrio yn yr ysgol nad yw mewn unedau cyfeirio disgyblion i ddod ynghyd drwy ddeialog broffesiynol barhaus i ddatblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd,
- cefnogi'r un personau i gynnal deialog broffesiynol barhaus ag ymarferwyr o ysgolion perthnasol a lleoliadau perthnasol i gefnogi dysgwyr sydd â chofrestriad deuol, a
- sicrhau bod y darparwyr y maent yn eu cymryd ymlaen i ddarparu cwricwla priodol ar gyfer dysgwyr sy'n cael addysg ac eithrio yn yr ysgol nad yw mewn

uned cyfeirio disgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol barhaus yn eu lleoliad/sefydliad i ddatblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd mewn perthynas â'r agweddau ar y cwricwlwm y maent yn eu darparu.

**<u>Datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd *ar draws* ysgolion a lleoliadau eraill</u>**

**Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir – Galluogi deialog broffesiynol ag ysgolion a lleoliadau eraill**

Caiff pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgolion a gynhelir a'r ysgolion meithrin a gynhelir eu cyfarwyddo i wneud y canlynol:

- gweithio ar y cyd â phennaeth a chorff llywodraethu ysgolion eraill o fewn eu grŵp/grwpiau clwstwr i wneud trefniadau bod ymarferwyr o'r ysgolion hynny yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol barhaus yn y clwstwr, er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.
- os yw'n berthnasol, ymgysylltu â'r athro/athrawes a'r pwyllgor rheoli sy'n gyfrifol am yr uned(au) cyfeirio disgyblion y mae ganddynt ddysgwyr sy'n pontio iddynt neu ohonynt, a/neu ddysgwyr sydd â chofrestriad deuol, gan eu gwahodd i enwebu ymarferwyr i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol barhaus er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.
- os yw'n berthnasol, ymgysylltu â darparwyr addysg ac eithrio yn yr ysgol nad yw mewn uned cyfeirio disgyblion y mae ganddynt ddysgwyr sy'n pontio i'w lleoliad neu o'u lleoliad, a/neu ddysgwyr sydd â chofrestriad deuol, gan eu gwahodd i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol barhaus er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.
- os yw'n berthnasol, ymgysylltu â darparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir y mae ganddynt ddysgwyr sy'n pontio o'r lleoliad hwnnw i'w hysgol, gan eu gwahodd hwy a'u harweinwyr/ymarferwyr a enwebwyd i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol barhaus er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.
- gwneud trefniadau i ymarferwyr o'u hysgol gymryd rhan mewn deialog broffesiynol barhaus ag ymarferwyr o ysgolion eraill y tu allan i'r clwstwr/clystyrau, er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.

Caiff pennaeth a chorff llywodraethu ysgolion uwchradd eu cyfarwyddo i weithio ar y cyd â phennaeth a chorff llywodraethu un neu ragor o ysgolion uwchradd eraill i wneud trefniadau bod ymarferwyr o'u hysgolion yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol barhaus er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.

Caiff pennaeth a chorff llywodraethu ysgolion arbennig eu cyfarwyddo i weithio ar y cyd â phennaeth a chorff llywodraethu un neu ragor o ysgolion arbennig eraill i wneud trefniadau bod ymarferwyr o'u hysgolion yn cymryd rhan mewn deialog broffesiynol barhaus er mwyn datblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.

## Amlinellu'r trefniadau mewn cynllun

Caiff y personau perthnasol o bob ysgol a lleoliad arall eu cyfarwyddo i amlinellu mewn cynllun y trefniadau a roddir ar waith i fodloni'r gofynion perthnasol a nodir yn y cyfarwyddyd hwn. Rhaid i'r cynllun hefyd amlinellu'r modd y bydd canlyniadau'r ddeialog broffesiynol yn llywio:

- deialog broffesiynol yn y dyfodol, ac
- y cwricwlwm a threfniadau asesu:
  - cynllunio (ac eithrio darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir sy'n mabwysiadu cwricwlwm Llywodraeth Cymru), ac
  - arferion addysgu a dysgu yn yr ysgol/lleoliad.

Rhaid parhau i adolygu'r cynllun.

## Trefniadau cychwyn

Caiff y personau perthnasol ar gyfer pob ysgol a lleoliad arall a fydd yn addysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru o 1 Medi 2022 eu cyfarwyddo i ddechrau gwneud y trefniadau a amlinellir yn y cyfarwyddyd hwn o'r dyddiad hwnnw ymlaen. Rhaid i'r trefniadau gael eu gwneud a'u hamlinellu mewn cynllun erbyn 1 Medi 2023.

Caiff y personau perthnasol ar gyfer pob ysgol a lleoliad arall a fydd yn addysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru o 1 Medi 2023 eu cyfarwyddo hefyd i sicrhau bod y trefniadau wedi eu gwneud a'u hamlinellu mewn cynllun erbyn 1 Medi 2023.

Rhaid i'r trefniadau hyn roi sylw i'r broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru i grwpiau blwyddyn o Flwyddyn 7 ymlaen.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cael effaith am 9am ar y diwrnod ar ôl iddo gael ei lofnodi. Bydd y cyfarwyddyd yn cael effaith hyd nes y caiff ei ddirymu gan Weinidogion Cymru.

Llofnodwyd gan Jeremy Miles

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dyddiad: 23 Mehefin 2022